Cyngor
Meddygol
Cyffredinol

Cymraeg

Adroddiad Blynyddol ar ein cydymffurfiaeth â **Safonau'r Gymraeg**

2023–24

Cyngor Meddygol Cyffredinol

Adroddiad Blynyddol ar ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg 2023-24

Mae'r Adroddiad Blynyddol hwn yn nodi sut yr ydym wedi cydymffurfio â'r safonau a gynhwysir yn yr hysbysiad cydymffurfio a gyhoeddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Yn unol â gofynion safon 66, mae'r adroddiad yn cwmpasu'r cyfnod rhwng 6 Rhagfyr 2023 a 31 Mawrth 2024.

Gwybodaeth amdanom ni

Ni yw'r sefydliad annibynnol sy'n rheoleiddio meddygon yn y DU. Rydym yn gweithio gyda meddygon, eu cyflogwyr, eu haddysgwyr ac eraill i wneud y canlynol:

- gosod safonau gofal cleifion ac ymddygiad proffesiynol y mae angen i feddygon eu cyrraedd.
- sicrhau bod meddygon yn cael yr addysg a'r hyfforddiant sydd eu hangen arnynt i ddarparu gofal da a diogel i gleifion.
- cadarnhau pwy sy'n gymwys i weithio fel meddyg yn y DU, a gwneud yn siŵr eu bod yn parhau i gyrraedd y safonau proffesiynol a osodir gennym drwy gydol eu gyrfaoedd.
- rhoi arweiniad a chyngor i helpu meddygon i ddeall yr hyn a ddisgwylir ganddynt.
- ymchwilio i bryderon os yw'n bosibl bod diogelwch cleifion mewn perygl, neu os yw hyder y cyhoedd mewn meddygon yn is na'r disgwyl, a chymryd camau gweithredu os oes angen.

Sefydlwyd ein swyddfa yng Nghaerdydd yn 2006 fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i ymgysylltu â meddygon a'r system iechyd yng Nghymru a'u cefnogi. Mae ein tîm yng Nghymru yn ymgysylltu â meddygon, cleifion, cyflogwyr, myfyrwyr meddygol, addysgwyr a rhanddeiliaid ledled y wlad.

Mae ein gwaith fel rheoleiddiwr yng Nghymru yn cael ei oruchwylio gan ein Cyngor. Mae'r Cyngor yn chwarae rhan hollbwysig yn y gwaith o osod ein nodau strategol, ac o gynnal ein ffocws ar gefnogi'r gweithlu meddygol i ddarparu gofal da i gleifion. Mae rhagor o wybodaeth am ein gwaith yng Nghymru ar gael yn ein hadroddiad cenedlaethol ar gyfer Cymru ddiweddaraf.

Cyflwyniad

Ers 6 Rhagfyr 2023 mae ein gwaith wedi bod yn ddarostyngedig i Reoliadau Safonau'r Gymraeg (Rhif 8) 2022 ar gyfer rheoleiddwyr gofal iechyd. Ar y diwrnod hwn, fe wnaethom gyhoeddi ein canllaw cydymffurfio allanol a lansio ein canllaw cydymffurfio mewnol ar gyfer cydweithwyr. Bu

cydweithwyr o bob rhan o'r sefydliad yn gweithio drwy gydol 2023 i ddatblygu canllawiau, prosesau ac adnoddau i hwyluso cydymffurfiaeth.

Mae'r adroddiad hwn yn ymdrin â'r tri mis cyntaf o gydymffurfio lle'r oeddem yn canolbwyntio ar weithredu canllawiau mewnol, cefnogi timau, a chodi ymwybyddiaeth fewnol o'r Gymraeg a'n rhwymedigaethau o dan y safonau. Cefnogwyd y gwaith hwn yn fewnol gan fwrdd prosiect traws-sefydliad, Noddwr Iaith Gymraeg ein Uwch Tîm Rheoli, a Rheolwr Safonau'r Gymraeg sy'n gweithio yn nhîm Cymru'r Cyngor Meddygol Cyffredinol. Cefnogwyd y gwaith hwn hefyd gan ein rhyngweithio â swyddfa Comisiynydd y Gymraeg a fforwm sy'n dod â rheoleiddwyr eraill at ei gilydd yn ddarostyngedig i Reoliadau rhif 8 sy'n benodol i rannu syniadau, heriau ac arferion da, yr ydym yn eu cynnull a'u cadeirio.

Rydym wedi ymrwymo o hyd i wella ein darpariaeth Gymraeg yn unol â'r hysbysiad cydymffurfio a roddwyd gan Gomisiynydd y Gymraeg. Mae'r hysbysiad cydymffurfio yn cynnwys yr holl safonau sy'n berthnasol i'n gwaith ac mae ar gael ar ein gwefan. Mae cydymffurfiaeth yn ein helpu i wella lefel y gwasanaethau Cymraeg y gall pobl yng Nghymru ddisgwyl eu derbyn gennym. Mae'r safonau hefyd yn rhoi cyfle i ni ddangos ein hymrwymiad i weithio'n ymatebol ac yn sensitif fel rheoleiddiwr pedair gwlad, gan gryfhau ein cysylltiadau ledled Cymru ar yr un pryd.

Rydym yn croesawu agwedd fwy rhagweithiol y Comisiynydd tuag at 'gyd-reoleiddio' gan ganolbwyntio ar weithio gyda sefydliadau i helpu i wella ansawdd gwasanaethau Cymraeg i siaradwyr Cymraeg eu defnyddio. Edrychwn ymlaen at weithio'n agosach gyda'r Comisiynydd wrth i ni barhau i weithredu a gwreiddio ein dull o gydymffurfio â'r safonau.

Ein dull gweithredu

Mae ein dull o weithredu'r safonau yn seiliedig ar ddwy egwyddor allweddol:

- Rydym yn ymdrechu i neilltuo swm rhesymol a chymesur o adnoddau gweithredol a gwybodaeth i ddiwallu anghenion siaradwyr Cymraeg, gan gefnogi ein staff i gyflawni'r dasg hon.
- Wrth ystyried sut mae bodloni'r safonau, rydym hefyd yn cydbwyso ein cyfrifoldeb i gydymffurfio â'n cyfrifoldebau deddfwriaethol eraill fel y'u diffinnir yn y *Ddeddf Feddygol* a *Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus*.

Nid yw pob agwedd ar ein gwaith o fewn cwmpas y safonau. Fodd bynnag, pan fydd gwasanaeth o fewn y cwmpas, rydym wedi ymrwymo i gymhwyso egwyddor o gydraddoldeb drwy beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg. Mae cynnal ymwybyddiaeth ac ymgysylltiad mewnol â'r safonau yn allweddol i wreiddio ein dull gweithredu. Roedd tîm y prosiect a Rheolwr Safonau'r Gymraeg wrth law i ateb ymholiadau a chynnig cyngor ar ôl lansio'r canllaw cydymffurfio

mewnol. Roeddent yn hwyluso sesiynau briffio ar gyfer timau allweddol ac yn eu cyflwyno mewn cyfarfodydd tîm a diwrnodau cwrdd i ffwrdd.

Ym mis Chwefror 2024, fe wnaethom gomisiynu adolygiad annibynnol o'r prosesau a sefydlwyd i reoli cydymffurfiad parhaus â'r safonau. Nododd yr adolygiad nifer o sylwadau cadarnhaol gan gynnwys:

- Gwnaed cryn ymdrech a gweithgarwch gan dîm y prosiect a'r ffrydiau gwaith perthnasol i sicrhau bod y Cyngor Meddygol Cyffredinol yn gallu dangos ei fod yn cydymffurfio â'r Safonau erbyn y dyddiad gweithredu, sef 6 Rhagfyr 2023.
- Cynhyrchwyd llawer iawn o ganllawiau ac yn nodweddiadol roeddent yn cynnwys gwybodaeth gefndir, y safonau perthnasol ar gyfer pob darn o ganllawiau, prosesau i'w dilyn a manylion y rhai y dylid cysylltu â nhw i gael rhagor o wybodaeth.
- Roedd cydweithwyr yn cydnabod pwysigrwydd y gwaith hwn i ddangos tegwch yn unol â mentrau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant a rôl y Cyngor Meddygol Cyffredinol fel rheoleiddiwr pedair gwlad.

Isod ceir trosolwg o sut y bu i ni gydymffurfio â'r safonau ar draws gwahanol feysydd gwaith yn ystod y cyfnod adrodd.

Cyfathrebu ac ymgysylltu

Rydym wedi ymrwymo i hwyluso cyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg a galluogi pobl i ryngweithio â ni yn eu dewis iaith. Rydym yn dangos yr ymrwymiad hwn drwy:

- Ymateb i ohebiaeth Gymraeg yn ddi-oed, gyda chanllawiau manwl ar gael i gydweithwyr nad ydynt yn siarad Cymraeg.
- Cynnig *Newyddion y Cyngor Meddygol Cyffredinol i fyfyrwyr*, *Cysylltu a newid, a chylchlythyrau cymuned diddordeb Proffesiynau Cymdeithion yn y Maes Meddygol* yn ddwyieithog. Anfonwyd cyfanswm o wyth rhifyn o'r cylchlythyr yn ystod y cyfnod adrodd, gyda 22 o unigolion yn dewis derbyn y rhain yn Gymraeg neu'n ddwyieithog.
- Mabwysiadu dull cyffredinol o ymdrin â gohebiaeth e-bost drwy ychwanegu'r geiriau '*Mae croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg*. *Byddwn yn ymateb yn Gymraeg, heb i hyn beri oedi ychwanegol*' yn ddwyieithog ar waelod pob e-bost a anfonir i dderbynwyr allanol.
- Rhoi'r cynnig rhagweithiol i ddefnyddio'r Gymraeg yn ein cyfarfod bwrdd crwn i gleifion ledled y DU, ein cyfarfod Fforwm Cynghori Cymru y DU chwemisol, mewn dau gyfarfod fel rhan o'n prosesau sicrhau ansawdd addysg rhagweithiol, ac ar gyfer cyfarfodydd â chleifion fel rhan o'n prosesau addasrwydd i ymarfer. Gwnaeth y Gwasanaeth Tribiwnlys Ymarferwyr Meddygol (MPTS) bum cynnig rhagweithiol i gofrestryddion yng Nghymru i ddefnyddio'r

Gymraeg mewn gohebiaeth ac yn ystod achosion cyfreithiol. Ni fanteisiwyd ar y cynigion, ond byddwn yn parhau i'w hyrwyddo a gwneud y cynnig rhagweithiol.

- Rhoi templedi ar waith i sicrhau bod pob cyhoeddiad yn cynnwys y cynnig rhagweithiol i ohebu â ni yn Gymraeg, ac y byddwn yn ymateb yn Gymraeg heb achosi oedi ychwanegol.
- Datblygu adnodd toglo ar ein gwefan i wella profiad defnyddwyr wrth gael mynediad at dudalennau gwe dwyieithog.

Cefnogi meddygon

Mae'r rhan fwyaf o'r safonau y mae ein gwaith yn ddarostyngedig iddynt wedi'u hanelu at aelodau'r cyhoedd. Fodd bynnag, mae rhai safonau'n berthnasol yn uniongyrchol i feddygon. Yn ystod y cyfnod adrodd:

- Daeth y fersiwn ddiweddaraf o *Arfer Meddygol Da* i rym ar 30 Ionawr 2024. Dyma ein canllawiau craidd sy'n nodi'r egwyddorion, y gwerthoedd a'r safonau gofal a'r ymddygiad proffesiynol a ddisgwylir gan bob meddyg sydd wedi cofrestru gyda ni. Roedd hyn eisoes ar gael yn ddwyieithog cyn i ni fod yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg. Gwyddom fod meddygon yng Nghymru yn gweithio mewn cyd-destun dwyieithog. Mae'r GMP wedi'i ddiweddaru, a phob darn o ganllawiau manylach, ar gael yn ddwyieithog ar ein gwefan.
- Gwneud y cynnig rhagweithiol i feddygon ddefnyddio'r Gymraeg mewn cyfarfodydd ac mewn galwadau ffôn wedi'u trefnu sy'n ymwneud â'n prosesau addasrwydd i ymarfer.

Codi ymwybyddiaeth

Rydym wedi ymrwymo i ymgorffori diwylliant sy'n gynhwysol ac yn groesawgar i'r Gymraeg. Rydym yn gwybod bod codi a chynnal ymwybyddiaeth ar draws y sefydliad yn helpu ein gwaith i gydymffurfio â'r safonau. Yn ystod y cyfnod adrodd gwnaethom:

- Lansio modiwl dysgu digidol ar ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, gan ganolbwyntio ar ei hanes a'i rôl yn niwylliant Cymru, a'r hyn y mae Safonau'r Gymraeg yn ei olygu i'r Cyngor Meddygol Cyffredinol. Mae'n ofynnol i'r holl staff newydd a phresennol gwblhau'r modiwl hwn.
- Gofyn i gydweithwyr ddatgan sgiliau iaith Gymraeg presennol, hunanasesu'r sgiliau hyn os oedd ganddynt rai, a hyrwyddo cyfleoedd i ddysgu Cymraeg. Ddiwedd mis Mawrth 2024, datganodd 43 o gydweithwyr sgiliau Cymraeg gyda'r rhan fwyaf yn datgan ymwybyddiaeth neu hyfedredd lefel mynediad mewn sgiliau gwrando, darllen, siarad ac ysgrifennu. Roedd 4 cydweithiwr wedi datgan lefelau hyfedr gyda 2 wedi'u lleoli yn swyddfa Caerdydd.

- Lansio templedi a chanllawiau Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb wedi'u diweddaru gan gynnwys ystyriaethau yn ymwneud â'r Gymraeg i gefnogi cydymffurfiaeth â'r safonau llunio polisi.
- Cyflwyno sesiynau briffio rhyngweithiol wedi'u teilwra ar gyfer timau allweddol, gan nodi cefndir y safonau a chanolbwyntio ar yr hyn y maent yn ei olygu i gydweithwyr yn ymarferol.
- Cyhoeddi erthyglau ar ein mewnrwyd staff sy'n dangos gwaith cydweithwyr ar draws y sefydliad o ran datblygu canllawiau, offer a phrosesau i hwyluso cydymffurfiaeth.
- Hysbysebu wyth swydd wag mewn dwy ymgyrch recriwtio, pob un yn nodi bod sgiliau Cymraeg yn ddymunol. Roedd cyfanswm o 123 o swyddi gwag yn ystod y cyfnod hwn: 115 heb ofynion o ran y Gymraeg.

Cydweithio

Mae gweledigaeth y Comisiynydd ar gyfer cyd-reoleiddio yn cyd-fynd â'n hymrwymiad i gydweithio, sy'n un o'r pum gwerth sefydliadol craidd sy'n sail i bopeth a wnawn. Rydym yn croesawu'r symudiad tuag at weithio gyda sefydliadau i rannu gwybodaeth ac arferion da. Yn ystod y cyfnod adrodd gwnaethom:

- Cynnull a chadeirio tri chyfarfod Fforwm Cyd-reoleiddwyr Safonau'r Gymraeg. Roeddem wedi cyd-gadeirio'r Fforwm gyda'r Cyngor Nyrsio a Bydwreigiaeth drwy gydol 2023 ac mae wedi ymrwymo i rannu syniadau, heriau ac arferion da o ran cydymffurfio â'r safonau.
- Adeiladu ar ein perthynas gadarnhaol gyda chydweithwyr yn swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, gan ymateb i'r arolwg barn rhanddeiliaid a mynychu Sioe Deithiol Materion Iaith.
- Ymgysylltu â'r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol i ddeall pa gyfleoedd sydd ar gael i gydweithwyr ddatblygu sgiliau Cymraeg.

Cwynion

Ni dderbyniwyd unrhyw gwynion yn ystod y cyfnod adrodd oedd yn ymwneud â'n cydymffurfiaeth â'r safonau. Gall aelodau'r cyhoedd gyflwyno cwyn, anfon canmoliaeth neu sylw am ein gwaith, gan gynnwys ar ein darpariaeth Gymraeg, drwy ein tudalen Cwynion ac adborth ar y we. Mae hyn yn cynnwys canllawiau dwyieithog ar ein proses cwynion ac adborth, ac mae'r ffurflen sylwadau, canmoliaeth a chwynion ar gael yn ddwyieithog ac mewn fersiynau hawdd eu darllen.

E-bost: **gmc@gmc-uk.org**
Gwefan: **gmc-uk.org**
Ffôn: **0161 923 6602**

General Medical Council, 3 Hardman Street, Manchester M3 3AW

Ffôn testun: **deialwch y rhagddodiad 18001** yna **0161 923 6602** i ddefnyddio'r Gwasanaeth Cyfleu Testun.

Ymunwch â'r sgwrs

@gmcuk
facebook.com/gmcuk
linkd.in/gmcuk
youtube.com/gmcuktv

To ask for this publication in another format or language, please call us on **0161 923 6602** or email us at **gmc@gmc-uk.org.**

I ofyn am y cyhoeddiad hwn mewn fformat neu iaith arall, ffoniwch ni ar **0161 923 6602** neu e-bostiwch ni ar **gmc@gmc-uk.org**.

You are welcome to contact us in Welsh. We will respond in Welsh, without this causing additional delay.

Mae croeso i chi gysylltu â ni yn Gymraeg. Byddwn yn ymateb yn Gymraeg, heb i hyn achosi oedi ychwanegol.

Cyhoeddwyd Medi 2024
© 2024 General Medical Council

Gellir atgynhyrchu testun y ddogfen hon yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod ei fod yn cael ei atgynhyrchu'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Cyngor Meddygol Cyffredinol a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Mae'r Cyngor Meddygol Cyffredinol yn elusen sydd wedi'i chofrestru yng Nghymru a Lloegr (1089278) a'r Alban (SC037750).

Cod: GMC/WLS2024_W/0924